# Adroddiad Effaith

## 2024-2025









Trivallis.

# Uchafbwyntiau perfformiad yn 2024/25

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Boddhad â Trivallis | 77% | 77% |

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Diwrnodau cyfartalog i gwblhau atgyweiriad | 20.2 | 14.9 |

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Cydymffurfio statudol | 93% | 99.5% |

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Atgyweiriadau a gwblhawyd mewn pryd (yr holl atgyweiriadau) | 76.2% | 86% |

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Boddhad ag atgyweiriadau | 84% | 84% |

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Achosion o leithder a llwydni byw | 281 | 76 |

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y buddsoddiad a wnaed i'n cartrefi presennol | 35.5 MILLION | £37.8 MILLION |

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| ôl-ddyledion tenantiaid | 3.3% | 2.8% |

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Galwadau Canolfan Gyswllt a gafodd eu datrys yn ystod y cyswllt cyntaf | 76% | 91% |

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Incwm ac arbedion ychwanegol a sicrhawyd ar gyfer tenantiaid trwy'r Gwasanaeth | £3.6 MILLION | £5.3 MILLION |

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gafodd eu datrys dros y flwyddyn | 92% | 95% |

| | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Pobl sy'n cael cymorth trwy ein rhaglenni cymorth lles | 1,654 | 1,487 |



# Darparu cartrefi a buddsoddi yn ein cymunedau

**Credwn fod tai yn sbardun allweddol i dwf economaidd, gan gynhyrchu swyddi, cyfleoedd hyfforddi, a buddion cadwyni cyflenwi y gellir eu cyfeirio tuag at gymunedau sydd angen buddsoddiad fwyaf. Yn 2024/25, fe wnaethom gynyddu ein ffocws ar adfywio, gan wneud buddsoddiadau ychwanegol sylweddol yn ein cymunedau sydd wedi darparu cartrefi, swyddi a chyfleoedd i bobl sy'n byw yn lleol.**

# Effaith

**62**

**Cartrefi newydd a ddarparwyd**

**558**

**Cartrefi a osodwyd yn ystod y flwyddyn**

**96%**

**Boddhad â chartrefi sydd newydd gael eu gosod**

**665**

**Cartrefi a addaswyd i wella hygyrchedd**

**270**

**Cartrefi a gafodd eu gwella trwy'r Rhaglen Gwelliant Thermol**

**£37.8 Miliwn**

**Cyfanswm y buddsoddiad a wnaed yn ein cartrefi presennol**

**435**

**Cartrefi a elwodd ar gael drysau a ffenestri newydd**

## Darparu mwy o gartrefi newydd

Yn 2024/25, gwnaethom gynnydd sylweddol yn ehangu mynediad at dai o ansawdd da, gan ddarparu 62 o gartrefi newydd ar draws chwe datblygiad, yn cynnwys ysgolion wedi'u hadnewyddu, adeiladau newydd, ac eiddo preifat wedi'u hail-brynu. Gan fod 10 cynllun yn rhagor ar y gweill i ddarparu 139 o gartrefi ychwanegol ac ailddatblygu Mitchell Court i baratoi'r ffordd ar gyfer 50 o unedau sy'n effeithlon o ran ynni, mae ein hymdrechion yn trawsnewid cymunedau. Mae'r cyflawniadau hyn a gefnogir gan £17.3 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru a £12.3 miliwn mewn benthyciadau, yn adlewyrchu ein hymrwymiad i greu cartrefi diogel, cynnes a fforddiadwy lle gall pobl ffynnu.

## Astudiaeth achos

# Darparu cartrefi fforddiadwy yn hen Ysgol Meisgyn



Mewn partneriaeth â Cartrefi Limited, trawsnewidiodd Trivallis hen Ysgol Meisgyn yn 11 o gartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel, gan gyfuno diogelu treftadaeth ag anghenion tai modern. Llwyddodd y datblygiad, a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Rhondda Cynon Taf, i ddarparu cartrefi llai yr oedd eu hangen yn fawr tra'n cadw cymeriad hanesyddol yr adeilad. Cwblhawyd y prosiect ym mis Rhagfyr 2024, ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad Trivallis i adfywio cymunedol a gwneud gwahaniaeth parhaol lle mae'n cyfri fwyaf.

# Defnyddio cartrefi gwag o'r newydd

Mae cartrefi gwag nid yn unig yn difetha cymunedau, ond hefyd yn adnodd sy'n gallu gyrru twf economaidd, os cânt eu targedu. Rydym wedi ymrwymo i fanteisio i'r eithaf ar ein gallu i ddechrau defnyddio'r cartrefi hyn o'r newydd, nid yn unig i ddarparu tai sydd eu hangen yn fawr, ond hefyd i ysgogi cyflogaeth a gweithgarwch economaidd yn lleol.

Er ein bod yn wynebu heriau wrth ddefnyddio cartrefi gwag o'r newydd, gan fod angen gwaith atgyweirio ac uwchraddio mawr ar lawer ohonynt, gwnaethom gynnydd cryf eleni. Llwyddon ni i leihau'r amser cwblhau cyfartalog i 47 diwrnod yn unig, sy'n gyflawniad nodedig o ystyried cymhlethdod y gwaith. Mae ein hymrwymiad i ansawdd yn glir o hyd, ac mae 96% o denantiaid newydd yn fodlon â chyflwr eu cartrefi, sy'n adlewyrchu ein hymroddiad i ddarparu mannau diogel, glân, ac sy'n barod i fyw ynddynt.



# Gwella a chynnal cartrefi presennol

Buddsoddom ni £37.8 miliwn mewn gwella ansawdd, effeithlonrwydd ynni, a chysur cyffredinol y tai presennol — gyda ffocws cryf ar wella'r profiad bywyd i'n tenantiaid. Yn ei hanfod, cadwyd 79% o'r buddsoddiad hwn o fewn economi De Cymru, diolch i'n hymrwymiad i weithio gyda chontractwyr a chyflenwyr lleol.



**Cyflawnwyd gradd Arian SHIFT, sy'n cydnabod perfformiad cryf o ran cynaliadwyedd yn y sector tai.**



**Uwchraddiwyd 270 o eiddo trwy'r Rhaglen Gwelliant Thermol gydag inswleiddio, ffenestri, drysau a thoeau.**



**Lleihawyd allyriadau fesul cartref flwyddyn ar ôl blwyddyn o dan ddulliau mesur blaenorol.**




**Llwyddwyd i wella effeithlonrwydd ynni mewn dros 1,600 o gartrefi, ac mae 80% ohonynt bellach wedi cael gradd C neu'n uwch yn y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC).**




**Arweiniodd y cynllun i drawsnewid y byngalos yn Llanharan at gartrefi cynhesach, biliau is, a 26% o ostyngiad mewn defnydd o ynni gwresogi.**



**Partnerwyd ag Ysgol Pensaernïaeth Cymru ar ymchwil datgarboneiddio arloesol.**



**Gosodwyd paneli solar mewn 119 o gartrefi, sy'n cefnogi allyriadau a chostau ynni is.**




**Casglwyd gwerth pedair blynedd o ddata carbon a chwblhawyd asesiad amgylcheddol llawn i arwain gweithredu yn y dyfodol.**



**Ymrwymiad parhaus i wydnwch o ran yr hinsawdd, cartrefi sy'n effeithlon o ran ynni, a diogelu'r amgylchedd.**

# Adfywio
# Penrhys



Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym ni wedi gwneud cynnydd cryf yn ailddatblygu Penrhys, a disgwylir y bydd cam un yn darparu 123 o gartrefi newydd fel rhan o gynllun hirdymor ar gyfer tua 1000 ar draws yr ystâd.

Mae'r prosiect hwn yn flaenoriaeth strategol i ni, gan roi cyfleoedd tai ac adfywio yn ganolog i ardal y Cymoedd Gogleddol. Rydym wrthi'n gweithio gyda thimau nid yn unig i greu cymuned newydd ond hefyd i sicrhau bod creu swyddi a thwf economaidd yn ganolog i'r fenter adfywio gyffrous hon.

Mae rôl preswylwyr wedi bod yn allweddol wrth ffurfio dyfodol eu cymuned, gan weithio'n agos gyda phenseiri a chynllunwyr. Mae cynlluniau manwl, sy'n cael eu harwain gan ymchwiliadau safle, bellach yn cael eu datblygu, a disgwylir cais cynllunio ar gyfer cam un yn 2025.





# Trawsnewid profiad tenantiaid

**Y llynedd, gwnaethom newidiadau sylweddol i ddarparu gwasanaethau, gan lansio Tîm o Amgylch y Tenant, sef ein hymagwedd arloesol at ddarparu cymorth personoledig sy'n helpu tenantiaid i reoli eu cartrefi, eu lles a'u cysylltiadau cymunedol.**

# Effaith

**83,129**
Galwadau i'r ganolfan gyswllt a dderbyniwyd

**93%**
y galwadau i'r ganolfan gyswllt a atebwyd

**91%**
galwadau a gafodd eu datrys yn ystod y cyswllt cyntaf

**77%**
Boddhad cwsmeriaid

**99.5%**
Cydymffurfio statudol

**84%**
Boddhad ag atgyweiriadau

**91%**
Boddhad â'r tîm masnachau mewnol

**95.1%**
Atgyweiriadau a gwblhawyd yn ystod yr ymweliad cyntaf

**45,134**
Nifer yr atgyweiriadau a gwblhawyd

**2.8%**
ôl-ddyledion tenantiaid

**95%**
yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gafodd eu datrys dros y flwyddyn

**40%**
Boddhad â'r gwasanaeth Rheoli Cymdogaethau

**£5.3m Miliwn**
Incwm ac arbedion ychwanegol a sicrhawyd ar gyfer tenantiaid trwy'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol

**1,487**
Pobl sy'n cael cymorth trwy ein rhaglenni cymorth lles

# Boddhad cwsmeriaid

Dangosodd ein harolwg STAR blynyddol welliannau calonogol: cododd y gyfradd boddhad ag atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw o 63% i 66%, cynyddodd ymddiriedaeth yn y sefydliad o 74% i 76%, a'r gyfradd canfyddiadau o werth rhent a diogelwch cartref oedd 81%. Bu gwelliant wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, o 53% i 57%, tra arhosodd y gyfradd boddhad cyffredinol â'r gwasanaeth yn gryf ar 77%. Mae'r ffigur hwn yn nodi gwelliant sylweddol a chynaledig o dair blynedd yn ôl.

# Gwella atgyweiriadau a gwasanaethau eiddo gwag



**Cwblhawyd 86% o atgyweiriadau mewn pryd,** sy'n gyflawniad gwell nag erioed wedi'i yrru gan ymroddiad y tîm a gweithio mwy clyfar.




**Lleihawyd yr amser atgyweirio cyfartalog i lai nag 15 diwrnod,** sydd 23% yn well na'r llynedd.


TOP
10%

**Ymhlith y 10% uchaf o'r landlordiaid sydd wedi gwella fwyaf ar gyfer atgyweiriadau** yn y Deyrnas Unedig, yn ôl Housemark.



8.5%

**Torrwyd atgyweiriadau sydd wedi dyddio i 8.5% y**n unig, sef y lefel isaf a gofnodwyd erioed..



**Roedd 96% o denantiaid yn fodlon** â chyflwr eu cartrefi pan symudon nhw i mewn.



91%

**91% o foddhad â masnachwyr** ar y safle.




**Void turnaround time reduced to 47 days,** despite complex works.




**84% o ran boddhad cwsmeriaid** â'r gwasanaeth atgyweiriadau.

# Cadw cartrefi'n ddiogel

Arhosodd yn y **chwartel uchaf ar gyfer cydymffurfiad landlordiaid o ran iechyd a diogelwch.**

Cwblhawyd **dros 1,000 o asesiadau risg tân yn canolbwyntio ar yr unigolyn** eleni.

Ymrwymiad parhaus i sicrhau bod pob un o gartrefi Trivallis yn **ddiogel, yn gyfforddus, ac yn cael eu cynnal yn dda**

Cryfhawyd y drefn o ran diogelwch rhag tân gyda rolau newydd a hyfforddiant, gan leihau ymweliadau mynych a chynyddu hyder tenantiaid.

Lanlwythwyd **11,000 o adroddiadau asbestos** i system ganolog, gan wella diogelwch a mynediad at wybodaeth.





# Gyrru newid trwy rym cymunedau

# Effaith

**Creu cymunedau ffyniannus a gwella lles tenantiaid a phreswylwyr yw un o'n nodau craidd. Rydym yn gwybod bod creu cysylltiadau a grymuso cymunedau i arwain ar faterion lleol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd, diogelwch cymunedol, byw yn annibynnol, a chydlyniant cyffredinol.**

**Yn 2024/25, mabwysiadom ddull cyffrous Datblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau (ABCD) a greodd gatalydd ar gyfer datblygiad, ymglymiad ac adfywio cymunedol. Trwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gryf, nid ar yr hyn sy'n anghywir, rydym ni'n cysylltu, yn cefnogi ac yn sefyll ochr yn ochr â phobl wrth iddyn nhw wneud i newid ddigwydd.**

**£32,903**
Grantiau a ddyfarnwyd i fentrau wedi'u harwain gan denantiaid

**43**
Mentrau wedi'u harwain gan denantiaid a gefnogir

**8**
Diwrnodau 'Great Estate' a drefnwyd

**593**
Pobl sy'n cymryd rhan ym mhrosiect 'Rise Strong'

## Ardaloedd llai, cysylltiadau cryfach

Aildrefnom ein hardaloedd gwasanaethau cymdogaethau trwy ddyblu nifer y Swyddogion Tai Cymunedol, gan leihau eu cwmpas o ryw 700 o gartrefi i 350–400. Mae hyn yn galluogi swyddogion i dreulio mwy o amser mewn cymunedau, meithrin ymddiriedaeth, a chynnig cymorth cynnar—gan arwain at gymdogaethau cryfach a mwy diogel. O ganlyniad, cododd y gyfradd boddhad â gwasanaethau cymdogaethau o 36% i 40%.



## Timau lleol, cymorth teilwredig

Crëwyd chwe thîm ardal newydd, yn cyfuno staff cynaliadwyedd tai a thenantiaeth i ganolbwyntio ar gymunedau penodol. Mae'r dull hwn wedi gwella amseroedd ymateb, wedi cryfhau cydweithio, ac wedi galluogi cymorth mwy personoledig—mae hyn mor effeithiol fel bod timau eraill bellach yn mabwysiadu'r model.

## Swyddogion grymusol, cymunedau iachach

Mae Swyddogion Tai Cymunedol bellach yn gweithredu fel partneriaid cymunedol, gan weithio ochr yn ochr â thenantiaid i ddod o hyd i atebion sy'n para a chefnogi lles. Gan fod mwy o amser i gael sgyrsiau ystyrlon, maent yn helpu creu tenantiaethau mwy cynaliadwy a phreswylwyr grymusol.

## Diwylliant un tîm, deilliannau gwell

Cryfhaom ein dull 'Tîm o Amgylch y Tenant', gan annog cydweithio ar draws timau i ddarparu'r cymorth cywir yn gyflym. Mae porth mewnol newydd wedi arfogi staff ag offer gwell, gan alluogi datrys materion yn gyflymach a gwella profiad cyffredinol tenantiaid.

## Astudiaeth achos:

### cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith



Pan ymwelodd Sarah Evans a Lee Dando â chwpl oedrannus oedd yn cael trafferthion oherwydd lleithder a llwydni, llwyddodd eu hymagwedd dosturiol a phersonoledig i drawsnewid sefyllfa a oedd yn achosi straen yn brofiad cadarnhaol. Arweiniodd dull pwyllog ac ystyriol Lee at gynllun atgyweirio diwygiedig, llai aflonyddgar, tra helpodd cynhesrwydd a diddordebau ar y cyd Sarah i feithrin ymddiriedaeth. Aethant y tu hwnt i ddisgwyliadau trwy fynd i'r afael â phryderon ychwanegol, fel mynediad i'r ardd, gan ddangos cryfder y dull Tîm o Amgylch y Tenant. Roedd eu hymweliad yn arddangos pŵer empathi, ymatebolrwydd, a gweithio cydgysylltiedig i ddarparu cymorth ystyrlon.



## Partneriaethau cryfach, cymunedau mwy diogel

Gwnaethom ddyfnhau'r cydweithio ag asiantaethau, yr heddlu, a gwasanaethau lleol i wella diogelwch ac ymddiriedaeth, er enghraifft yng Nghae Fardre lle helpodd ymdrechion ar y cyd i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Treuliodd swyddogion fwy o amser yn eu cymunedau, gan feithrin perthnasoedd a gyrru datrysiadau ar y cyd trwy bartneriaethau iechyd

# Case study

## Trawsnewidiad wedi'i arwain gan y gymuned trwy bartneriaeth a dylunio



Mae Cae Fardre wedi cael ei drawsnewid trwy arweinyddiaeth tenantiaid, partneriaethau cydweithredol, a dylunio ystyriol. Yn rhan o'r fenter Clirio, Dal, Adeiladu, bu preswylwyr yn gweithio ochr yn ochr â Trivallis, Heddlu De Cymru, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gael gwared â garejis segur, gwella gwelededd, a gosod camerâu cylch cyfyng—gan wneud yr ardal yn fwy diogel ac yn fwy croesawgar. Fe wnaeth grŵp dan arweiniad tenantiaid, a gefnogir gan Trivallis, gymryd perchnogaeth o welliannau lleol a chwarae rôl ganolog mewn creu hyb cymunedol bywiog. Mae eu gweledigaeth a'u hymrwymiad wedi bod yn allweddol i yrru newid.

Mae eleni wedi dangos grym tenantiaid i ffurfio'u cymunedau a dylanwadu ar wasanaethau. Trwy roi preswylwyr yn ganolog i benderfyniadau a wneir, rydym ni wedi gweld ymddiriedaeth yn cael ei hadfer, doniau'n cael eu hamlygu, a synnwyr ar y cyd o ddiben yn dod i'r amlwg—sy'n profi pan fydd tenantiaid yn arwain, fod trawsnewidiad yn dilyn.

## Ymyrraeth gynnar, canlyniadau gwell

Gyda gwybodaeth leol gryfach, nododd swyddogion faterion yn gynharach a chysylltu tenantiaid â'r cymorth cywir. Arweiniodd y dull ataliol hwn at ostyngiad mewn adroddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol o 576 i 522, a chyfraddau datrys gwell o 92% i 95%, gan hybu gwydnwch cymunedol.




## Cefnogi tenantiaid newydd

Cododd cyfradd boddhad tenantiaid newydd o 89% i 96%, diolch i gymorth ymarferol fel lloriau wedi'u gosod ymlaen llaw, cyngor ar gyllidebu, a chyfle i brynu dodrefn fforddiadwy. I'r rheiny a oedd angen cymorth ychwanegol, roedd prosiect GRAMO yn darparu canllawiau dwys cyn tenantiaeth, gan helpu tenantiaid i feithrin y sgiliau i gynnal eu cartrefi.

## Rheoli materion cymhleth gyda chymorth strwythuredig

Trwy ein model Tîm o Amgylch y Tenant, buom yn darparu cymorth strwythuredig a theilwredig ar gyfer tenantiaid sy'n wynebu heriau cymhleth. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau mewnol ac allanol, yn dibynnu ar beth roedd ei angen.

Yn 2024/25, llwyddodd ein gwasanaethau cymorth a ariennir gan Grant Cymorth Tai i helpu cannoedd o bobl ledled Rhondda Cynon Taf i aros yn eu cartrefi, byw yn fwy annibynnol, a meithrin y sgiliau sydd eu hangen i reoli tenantiaeth.



- Bu SAFE yn cefnogi **365** o bobl ag anghenion tai, yn cynnwys y rheiny â heriau iechyd meddwl neu heriau cymhleth.
  - Llwyddodd **89%** i gynnal tai sefydlog
  - Gorffennodd **81%** o gymorth yn gadarnhaol
  - Cafodd y gwasanaeth ei aildendro ym mis Mai 2024 am hyd at 7 mlynedd yn rhagor
- Gwasanaeth cymorth celcio MAGPIE:
  - Gorffennodd **81%** o gymorth yn gadarnhaol
  - **100%** o foddhad cleientiaid
  - **Enillydd** Gwobr Tai Cymru
- Hyfforddiant cyn-tenantiaeth GRAMO:
  - Darparwyd i **531** o bobl dros dair blynedd
  - Cyfradd cwblhau **76%**
  - Helpodd i feithrin sgiliau ar gyfer byw yn annibynnol yn llwyddiannus

## Sheltered housing

- Llwyddodd tai gwarchod i gefnogi lles a lleihau unigrwydd ar draws 23 o gynlluniau gwarchod trwy weithgareddau a phartneriaethau cymdeithasol, a helpu 24 o denantiaid i adleoli'n esmwyth o Fanheulog.

## Esblygu ein hymagwedd at les cymunedol

Eleni, newidiom i ddefnyddio dull datblygu cymunedol trawsnewidiol, gan rymuso preswylwyr i arwain newid lleol. Ym Maes y Deri, cafodd mannau awyr agored eu hadfer; yng Nghae Fardre, mae hyb sy'n cael ei gynnal gan breswylwyr bellach yn cynnig bwyd, cymorth iechyd meddwl, a gweithgareddau teuluol; ac ym Mhenrhys, helpodd y bobl leol i ffurfio cynllunio ailddatblygu ac adfywio gofod natur. Cafodd dros 597 o bobl gymorth gan Brosiect 'Rise Strong' a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gryfhau grwpiau cymunedol a gwella iechyd meddwl, perthnasoedd, a pherthyn ar draws tair cymuned.



# Gwrando, dysgu, a gweithredu gyda thenantiaid

**Mae cred syml yn ganolog i bopeth a wnawn: dylai'r bobl sy'n byw yn ein cartrefi gael dweud eu dweud o ddifri am y modd y maent yn cael eu cynnal. Eleni, gwelsom y gwahaniaeth y mae'n ei wneud pan nad ymgynghori â thenantiaid yn unig a wneir, ond eu bod yn cael eu cynnwys yn weithredol mewn ffurfio gwasanaethau, yn dylanwadu ar benderfyniadau, ac yn ysgogi newid.**

# Galluogi dylanwad tenantiaid a chyfranddalwyr

Ysgogwyd newid gwirioneddol eleni gan ymglymiad tenantiaid. Lansiodd y Panel Gweithredu Tenantiaid frand newydd, sef **Tenantiaid Gyda'i Gilydd – Yn Gwneud Gwahaniaeth (Tenants Together – Making a Difference).** Roedd T-Fest yn dathlu 120 o denantiaid, a llwyddodd tenantiaid Trivallis i gael cydnabyddiaeth genedlaethol yng Ngwobrau TPAS, sy'n cynnwys stori bwerus am drawsnewidiad personol a'r effaith ar y gymuned.

### Cyflawniadau Gweithgorau

**Cwynion:** Cynyddodd boddhad o 54% i 70%; bu gwelliant o 3% yn nibynadwyedd penodiadau.

**Cymdogaethau ac Ystadau:** Ysbrydolodd 8 Diwrnod 'Great Estate', gan ddod â phreswylwyr a staff at ei gilydd i wella ardaloedd lleol.

**Grŵp Asedau:** Bu'n peilota adolygiadau dewis a pherfformiad contractwyr wedi'u harwain gan denantiaid.

**Grŵp Gorchwyl Ailgodi tâl:** Creodd bolisïau tecach ar godi tâl.

**Atgyweiriadau:** Helpodd i dorri'r ôl-groniad; bu'n eirioli dros gynyddu iawndal am golli apwyntiadau o **£5 i £15.**

**Panel Grantiau Cymunedol** Dyfarnwyd £32,903 i 43 o fentrau wedi'u harwain gan denantiaid.

**Grŵp Tai Gwarchod:** Sicrhaodd fod lleisiau preswylwyr hŷn yn cael eu clywed ac y gweithredir yn unol â nhw.

# Eirioli dros bolisïau sy'n canolbwyntio ar y gymuned

- Grwpiau wedi'u harwain gan denantiaid a phenderfyniadau allweddol wedi'u dylanwadu gan TAP, yn cynnwys ardaloedd llai swyddogion tai, atgyweiriadau gwell, a gwasanaeth cwsmeriaid gwell.
- Partneriaethau cryf ag ysgolion, cynghorau, a phrosiectau cymunedol wedi'u cefnogi gan grwpiau gwirfoddol fel 'Rise Strong', sy'n dangos effaith hirdymor o ymyriadau tymor byr, wedi'u harwain gan brofiadau bywyd.
- Mae pob un o'r staff datblygu cymunedol wedi eu hyfforddi mewn Datblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau (ABCD).
- Development (ABCD).

Trivallis.

Trivallis Ltd
Ty Pennant
Mill Street
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF37 2SW

Tel: **03000 030 888**
Web: **trivallis.co.uk**